Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Cyngor llawn |
| Dyddiad: | 21 Mai 2024 |
| Teitl yr adroddiad: | Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024 i 2025 |
| Adroddiad gan: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau a Swyddog Adran 151/ Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Pwrpas yr adroddiad: | Derbyn penderfyniadau'r Panel a chadarnhau nifer y taliadau uwch gyflogau yn 2024-25 |

## 1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer tâl aelodau'r sefydliadau canlynol:

- Prif gynghorau – cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- Cynghorau tref a chymuned
- Awdurdodau parciau cenedlaethol
- Awdurdodau tân ac achub
- Cyd-bwyllgorau corfforaethig

Mae'r Panel yn gorff annibynnol ac mae'n gallu gwneud penderfyniadau am:

- y strwythur cyflog sy'n pennu tâl yr aelodau
- y math o lwfansau a natur y lwfansau hynny sydd i'w talu i aelodau
- p'un a yw'r taliadau'n orfodol neu'n caniatáu lefel o hyblygrwydd lleol
- drefniadau o ran absenoldeb teuluol
- drefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel

Mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod weithredu'r penderfyniadau a wnânt.

Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol y Panel ar 28 Chwefror 2024 a daeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2024.  Mae'r adroddiad wedi'i gymryd i ystyriaeth wrth baratoi cyllideb 2024-25 ac mae cyllid digonol wedi'i neilltuo er mwyn ariannu taliadau aelodau.

Mae'r prif newidiadau sy'n berthnasol i'r Cyngor wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad hwn.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 2.0 Penderfyniadau terfynol y Panel ar gyfer 2024-25

### 2.1 Taliadau i aelodau etholedig

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r deilyddion swydd sydd â hawl i dderbyn uwch gyflog a chyflog dinesig yn 2023-24 (yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn ar 23 Mai 2023) ac yn cymharu cyflogau 2023-24 â'r cyflogau a fydd yn daladwy o Ebrill 2024:

| Rhestr Taliadau i Aelodau | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol i'r holl aelodau, sydd wedi'i gynnwys yn yr holl uwch gyflogau a chyflogau dinesig isod | £17,600 | £18,666 |
| Band 1: | | |
| Arweinydd | £56,100 | £59,498 |
| *Dirprwy Arweinydd | £39,270 | £41,649 |
| Band 2: | | |
| Aelodau'r Pwyllgor Gwaith | £33,660 | £35,699 |
| Band 3: | | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | £26,400 | £27,999 |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | £26,400 | £27,999 |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | £26,400 | £27,999 |
| Cadeirydd y Cyngor | £26,400 | £27,999 |
| Band 4: | | |
| Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf | £26,400 | £27,999 |
| Band 5: | | |
| Is-Gadeirydd y Cyngor | £21,340 | £22,406 |

*Mae gan y Cyngor ddau ddirpwy arweinydd ond caiff y lwfans ei rannu rhwng y ddau unigolyn.

### 2.2 Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig

Bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy ("y cap") yn aros yn ei le yn 2024-25, hy cyfanswm o 17 ar gyfer Ynys Môn, gan gynnwys cyflogau dinesig. Mae pob uwch gyflog a chyflog dinesig yn cynnwys y cyflog sylfaenol.

### 2.3 Taladau i aelodau cyfetholedig

Ar hyn o bryd, dylai aelodau cyfetholedig gael cydnabyddiaeth ariannol ar sail diwrnod neu hanner diwrnod. Fodd bynnag, mae'r Panel wedi nodi newid tuag at ddefnydd amlach o gyfarfodydd a/neu gyrsiau hyfforddiant ar-lein. Mae rhain yn aml yn fyr ac mae pwyllgorau'n tueddu i gyfarfod yn fwy rheolaidd.

Mae'r Panel wedi penderfynu felly y dylid rhoi hyblygrwydd lleol i'r swyddog perthnasol benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod, neu ddefnyddio cyfradd fesul awr lle mae'n gwneud synnwyr cyfuno nifer o gyfarfodydd byr.

Mae'r Panel hefyd yn bwriadu darparu enghreifftiau o arferion da ac rydym wedi cysylltu gyda'r Panel I ofyn am arweiniad pellach.

| Rôl | Fesul awr | Hyd at 4 awr | 4 awr a throsodd |
|---|---|---|---|
| Cadeiryddion pwyllgorau safonau a phwyllgorau archwilio | £33.50 | £134 | £268 |
| Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau sydd hefyd yn cadeirio pwyllgorau safonau ar gyfer cynghorau tref a chymuned | £29.75 | £119 | £238 |
| Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau, pwyllgorau craffu addysg a throsedd ac anrhefn a phwyllgorau archwilio | £26.25 | £105 | £210 |

### 2.4 Taliadau eraill

Gan na wnaed unrhyw newidiadau eraill o ran taliadau, bydd penderfyniadau blaenorol yn dal i sefyll.  Mae'r penderfyniadau cyfredol wedi'u cyhoeddi ar wefan y Panel.

## 3.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Cyngor:

3.1 dderbyn penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2024-25

3.2 gadarnhau y bydd deilyddion yr un swyddi â 2023-24 â'r hawl i dderbyn uwch gyflogau yn 2024-25, sef:

Cadeirydd y Cyngor
Is-Gadeirydd y Cyngor
Arweinydd y Cyngor
Dirprwy Arweinydd y Cyngor
Aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith (7)
Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf
Cadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini (2)
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion

3.3 awdurdodi swyddogion i newid Rhan 6 o Gyfansoddiad y Cyngor (Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau) i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-25.

Papur cefndirol: Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2024 i 2025 (Chwefror 2024):
Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2024 i 2025 [HTML] | LLYW.CYMRU


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.